**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 6 CHWEFROR 2020 DYDD IAU, 6 CHWEFROR 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: M. MOORE (CADEIRYDD)

Councillors J. Holt (Deputy Chair)
P. Baldwin
D. Bevan
G. Collier
J. Collins
M. Cross
N. Daniels
D. Davies
G. A. Davies
G. L. Davies
M. Day
P. Edwards
L. Elias
D. Hancock
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
W. Hodgins
M. Holland
J. Mason
H. McCarthy
J. Millard
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
G. Paulsen
K. Pritchard
K. Rowson
T. Sharrem
T. Smith

B. Summers
B. Thomas
G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Prif Swyddog Adnoddau |
| Prif Swyddog Masnachol |
| Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol |
| Swyddog y Wasg a Chyhoeddusrwydd |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Cook a J. Wilkins. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **<u>Cydymdeimlad</u>**<br><br>➢ Mynegwyd cydymdeimlad â theulu'r diweddar gyn Gynghorydd David White ar eu profedigaeth.<br><br>Safodd aelodau a swyddogion mewn distawrwydd fel arwydd o barch.<br><br>**<u>Llongyfarchiadau</u>**<br>➢ Estynnwyd llongyfarchiadau i Denis ac Audrey Osland o Abertyleri a fyddai'n dathlu eu pen-blwydd priodas Ddiemwnt ar 6 Chwefror 2020.<br><br>PENDERFYNWYD anfon llythyr yn eu llongyfarch. | |
| **No. 5** | **<u>LLYFR COFNODION – TACHWEDD 2019 - IONAWR 2020</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Llyfr Cofnodion ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2019 – Ionawr 2020 i'w ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 7** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **<u>PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU</u>**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 11** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 18** | **CWESTIYNAU AELODAU**<br><br>Cyflwynwyd y cwestiwn dilynol gan y Cynghorydd H. Trollope, Dirprwy Arweinydd y Grŵp Llafur ac ymatebwyd iddo gan y Cynghorydd J. Mason, Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol:<br><br>**Cwestiwn**<br><br>“A fyddai Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ac esbonio ei gefnogaeth dros gadw’r sefyllfa fel y mae yng nghyswllt Cludiant Rhwng y Cartref a’r Ysgol a’r | |

Cartref a’r Coleg (lefel bresennol darpariaeth) ym mis Medi 2018 o gymharu â’i gefnogaeth ar gyfer penderfyniad y Pwyllgor Gweithredol ar Gymorth Cludiant mewn Gwasanaethau Cymdeithasol yr wythnos flaenorol”.

**Ymateb**

Dywedodd yr Aelod Gweithredol y credai fod gwahaniaethau sylfaenol rhwng y ddau benderfyniad hyn. Mae’n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant rhwng y cartref a’r ysgol, tra nad oes unrhyw ddyletswydd statudol i ddarparu Cymorth Cludiant. Dim ond os na allent gael eu diwallu gan adnoddau’r person ei hun neu adnoddau cymunedol y mae gan Gwasanaethau Cymdeithasol ddyletswydd i ddiwallu’r anghenion hynny.

Penderfyniad y Pwyllgor Gweithredol ym mis Medi 2018 oedd peidio cynyddu’r terfyn polisi presennol i’r terfynau statudol a nodir ar gyfer cludiant Rhwng y Cartref a’r Ysgol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a Chludiant Rhwng y Cartref a’r Coleg. Y penderfyniad oedd peidio cytuno i ostwng y grant teithio Ôl 16 mewn camau. Gwnaed y penderfyniad hwn i sicrhau diogelwch plant a bod pob plentyn a pherson ifanc o fewn Blaenau Gwent yn cael y cyfleoedd gorau posibl i ddysgu a datblygu sgiliau ar gyfer adfywio’r ardal yn y dyfodol.

Roedd gweithredu’r polisi Cludiant Cymorth wedi ei gefnogi gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a hefyd y Pwyllgor Gweithredol a’r cyfan oedd penderfyniad y Pwyllgor Gweithredol oedd codi tâl ar 11 unigolyn nad ydynt yn gymwys am gludiant am ddim ond yn methu mynd eu hunain i Opsiynau Cymunedol ac angen defnyddio cludiant y Cyngor. Cytunodd y Pwyllgor Gweithredol y dylai’r tâl hwn fod yn gyfwerth â’r gost o fynd yno mewn trafnidiaeth gyhoeddus. Allan o’r 149 asesiad a gynhaliwyd, dim ond un dinesydd sydd wedi rhoi’r gorau i fynychu Opsiynau Cymunedol ac mae hyn yn adlewyrchu’r ymgynghoriad a’r datrysiadau a ganfuwyd gan y tîm ar gyfer rhai sy’n mynychu a’u gofalwyr.

**Cwestiwn Atodol**

“A gynhaliwyd asesiad effaith llawn gyda defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd oherwydd ei bod yn amlwg o sylwadau yn y South Wales Argus dyddiedig 29 Ionawr 2020 fod yr unigolyn dan sylw

| | | |
|---|---|---|
| | yn teimlo wedi'i siomi ac yn cael problemau parhaus?"<br>**<u>Ymateb</u>**<br><br>Cadarnhaodd yr Aelod Gweithredol bod asesiad effaith llawn wedi'i atodi gyda'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gweithredol a hefyd y Pwyllgor Craffu sy'n rhoi sylw llawn i'r pwyntiau a godwyd.<br><br>Fodd bynnag, cynigiodd drefnu cyfarfod rhyngddo ef, yr Aelod a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar amser cyfleus i drafod yr achos yn ymwneud â'r unigolyn.<br><br>Diolchodd y Cynghorydd Trollope i'r Aelod Gweithredol a derbyniodd y cynnig i gwrdd. | |
| **No. 19** | **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>**<br><br>Nid oedd unrhyw gwestiynau wedi'u cyflwyno gan aelodau o'r cyhoedd. | |
| **No. 20** | **<u>CYLLIDEB REFENIW 2020/2021 TO 2024/2025</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a gyflwynwyd i Aelodau i:<br><br>➢ Roi diweddariad ar y setliad llywodraeth leol darpariaethol cadarnhaol ar gyfer 2020/2021 a'r effaith ar gyllideb y Cyngor.<br><br>➢ Ystyried a chytuno ar y gyllideb fanwl ar gyfer 2020/2021 a'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2021/2022.<br><br>➢ Cytuno ar lefel cynnydd y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021.<br><br>Wedyn tynnwyd sylw manylach at y pwyntiau perthnasol dilynol:<br><br>**Cwmpas a Chefndir:** | |

- Mae'r Setliad Darpariaethol yn cynnwys manylion y cyllid refeniw y gallai Awdurdodau Cymru ddisgwyl eu derbyn yn 2020/2021 er mwyn iddynt osod eu cyllidebau a phenderfynu ar lefel y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn honno. Mae hefyd yn rhoi manylion y cyllid cyfalaf y gallai Awdurdodau ddisgwyl ei dderbyn i gyllido eu rhaglenni cyfalaf. Nodwyd na chafwyd ffigurau dangosol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022 a thu hwnt hyd yma.

- Mae'r setliad darpariaethol cadarnhaol ynghyd â'r cyfleoedd a ddynodir yn rhaglen Pontio'r Bwlch yn golygu y gall y Cyngor fuddsoddi mewn blaenoriaethau allweddol, osgoi toriadau i wasanaethau a chynyddu ei gydnerthedd ariannol.

**Sefyllfa Genedlaethol (Cymru gyfan)**

- Mae'r prif bennawd cyffredinol yn y Cyllid Allanol Cronnus (AEF) a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 3.9%, ar ôl rhoi ystyriaeth i drosglwyddiadau i'r setliad. O gymharu gyda chynnydd cyfartalog Cymru o 4.3%, mae hyn yn rhoi Blaenau Gwent yn y traean isaf o'r tabl Cymru-gyfan.

- Bu pedwar trosglwyddiad i'r setliad fel sy'n dilyn:

    - £39.112m ar gyfer y grant pensiwn athrawon
    - £12.018m ar gyfer y grant tâl athrawon
    - £1.9m ar gyfer gofal nyrsio a gyllidir gan GIG
    - £151k ar gyfer y Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol

Mater i bob cyngor fyddai penderfynu p'un ai i basportio y cyfan neu beth o'r cyllid hwn i'r deiliaid cyllideb perthnasol.

- Dim ond ar sail Cymru-gyfan y cafodd peth data penodol ar grantiau refeniw ei gyhoeddi yn gyfanswm o £982m, felly nid yw effaith lawn hyn yn hysbys eto ar gyfer Blaenau Gwent.

- Mae cyllid ar gyfer rhai grantiau wedi cynyddu, er enghraifft Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol, Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Mynediad PDG a Grant Pwysau Cynaliadwyedd. Mae hefyd grant newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol ond mae rhai grantiau wedi gostwng, er enghraifft y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy.

- Cyhoeddir manylion pellach y grantiau penodol wrth ochr y Grant Cymorth Refeniw (RSG) terfynol ar 25 Chwefror 2020.

- Byddai'r cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo ar gyfer 2020/2021 yn £198 miliwn (yn cynnwys £20 miliwn ar gyfer grant adnewyddu priffyrdd cyhoeddus), cynnydd o £15 miliwn ar yr hyn a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Derfynol y llynedd.

**Sefyllfa Blaenau Gwent**

- Mae'r cynnydd pennawd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar ôl caniatáu am drosglwyddiadau yn 3.9% (£4.3m) o gymharu â chynnydd Cymru gyfan o 4.3%.

- Mae manylion yr Asesiad Gwariant Safonol (SSA) – y fformiwla y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio fel sail i ddosbarthu cyllid i'w weld ym mharagraffau 2.22 – 2.24 yr adroddiad.

- Mae'r Awdurdod yn parhau i fod y derbynnydd uchaf o Gyllid Allanol Cronnus (AEG) ar sail y pen.

**Tabl 1 – Bwlch Cyllid Strategaeth Ariannol Tymor Canol (fel ar 12 Rhagfyr 2019)**

- Mae'r ffigurau a gynhwysir yn Nhabl 1 yr adroddiad yn seiliedig ar nifer o dybiaethau yn cynnwys:

    - Lefel arian gwastad o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020/2021 ymlaen.
    - Cynnydd Treth Gyngor o 4% y flwyddyn.

**Pwysau Cost Gwasanaeth a Thwf**

- Mae cynnydd y setliad darpariaethol mewn cyllid o £4.3m (3.9%) ar gyfer 2020/2021 ar gyfer Blaenau Gwent yn well na'r sefyllfa a fodelwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol o 0%.

- Yn dilyn y setliad darpariaethol hwn, cafodd y pwysau cost presennol a newydd ar wasanaethau ei adolygu a'i ddiweddaru. Mae'r pwysau hyn yn awr yn gyfanswm o £2m

ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021 (cynnydd o £1m). Mae'r newidiadau i'r pwysau cost hynny a'r eitemau twf a gytunwyd gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2019 yn cynnwys:

- Tâl a Phensiynau Athrawon – dim ond cyllid ar gyfer y cynnydd mewn costau am gyfnod 7 mis mae'r setliad yn ei roi. Aseswyd fod y pwysau cost dilynol ar gyfer 5 mis arall y flwyddyn ariannol yn £760,000.

- Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy (gostyngiad £1.8m mewn grant Cymru gyfan) - gan arwain at bwysau cost o £35,000 ar ben pwysau cost y flwyddyn bresennol o £50,000 (cyfanswm o £85,000).

- Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy – bu cynnydd sylweddol yn y setliad ar gyfer y grant penodol hwn ar gyfer 2020/20201. Dylai hyn alluogi'r gwasanaeth i drin costau/cyllideb heb y gofyniad am gynnydd yn ei gyllid craidd. Felly gellid gostwng neu ddileu y pwysau cost a gytunwyd yn flaenorol o £392,000.

- Cyllideb Trawsnewid – byddai'n ddarbodus sefydlu Cyllideb Trawsnewid y gellid ei defnyddio er enghraifft i weithredu/cyflenwi prosiectau a buddsoddiadau trawsnewidiol ar draws y Cyngor. Drwy sefydlu'r gyllideb hon, rhagwelir y byddai'n gostwng y gofyniad i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Cynigiwyd gosod y gyllideb ar £500,000.

➢ Cynigiwyd hefyd i gytuno ar y pwysau cost ac eitemau twf diwygiedig a'u cynnwys yng nghyllideb y Cyngor o 2020/2021.

**Triniaeth o Grantiau a Chyfrifoldebau'n Trosglwyddo i'r Setliad**

➢ Nodwyd na fyddai'r ddau grant sy'n trosglwyddo i'r setliad, sef y Dyfarniad Tâl ar gyfer Athrawon a Gofal Nyrsio a Gyllidir gan y GIG yn cael eu neilltuo mwyach ac y byddai'n rhaid i'r Cyngor ystyried p'un a fyddai'n parhau i gefnogi'r gweithgaredd hwn a gyllidid yn flaenorol drwy grant penodol a chyllid ychwanegol neu ddefnyddio'r adnoddau ar gyfer

dibenion eraill. Os nad yw'r Cyngor yn cytuno i basportio cyllid yn y ffordd yma, nodwyd y byddai pwysau cost newydd o fewn y cyllidebau hyn.

- Felly cynigiwyd y dylid pasportio'r grantiau sy'n trosglwyddo i'r setliad i gyllidebau perthnasol o 2020/2021.

**Effaith ar Gyllidebau Ysgolion Unigol (ISB)**

- Drwy basportio'r grantiau a drosglwyddwyd i'r setliad (£1,075m Tâl a Phensiynau Athrawon) a chytuno i gyllido pwysau cost ysgolion (£1.6m) h.y. (£760,000 ar gyfer 5 mis o dâl a phensiynau athrawon a £395,000 ar gyfer cynnydd mewn demograffeg disgyblion) yn arwain at gynnydd i'r ISB o 5% - roedd hyn ychydig yn uwch na'r cynnydd o 4.9% y byddai'r Cyngor yn ei dderbyn.

**Tabl 3 – Bwlch Cyllid Diwygiedig (a thybio y cafodd grantiau eu pasportio)**

- Ar gyfer 2020/2021, mae'r bwlch cyllid diwygiedig yn £21,000 yn cynyddu i £2,342,000 yn 2021/2022.

**Tabl 4 – Amcangyfrif cyflawniad adolygiadau strategol Pontio'r Bwlch**

- Nodwyd y cafodd adolygiadau strategol Pontio'r Bwlch eu craffu gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol a'u cytuno gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2019 fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol.

- Cynigiwyd cynnwys yr amcangyfrif cyflawniad lefel is o'r cynigion yn y gyllideb fyddai'n arwain at fwlch/gwarged cyllid ar gyfer:

  - blwyddyn ariannol 2020/2021 gwarged (£1,444,000)
  - blwyddyn ariannol 2021/2022 gwarged (£37,000)

**Trosglwyddo i Gronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi**

- Cynigwyd fod cyflawni cynigion Pontio'r Bwlch sy'n fwy na'r gofyniad gyllideb yn cael eu trosglwyddo i gronfa wrth gefn a glustnodwyd i gefnogi cynllunio ariannol tymor canol, yn benodol ar gyfer blynyddoedd diweddarach y Strategaeth

Ariannol Tymor Canol.

**Arweinydd y Cyngor - Datganiad**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod fater cyfunol o bleser a rhyddhad iddo gynnig cymeradwyo'r gyllideb (gydag un mân welliant). Dyma'r tro cyntaf mewn 12 mlynedd i lywodraeth leol fod mewn sefyllfa i gael setliad a chynnig cyllideb nad oedd yn golygu ystyried toriadau i wasanaethau a cholli swyddi. Roedd hwn yn setliad cadarnhaol iawn i Flaenau Gwent a gobeithiai fod hyn yn newid sylweddol yn y ffordd y caiff llywodraeth leol ei chyllido. Nodwyd fod arweinwyr cynghorau eraill o bob rhan o Gymru wedi dweud y bu gwasanaethau mewn mewn argyfwng am y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

Wrth gynnig cymeradwyo'r gyllideb dywedodd yr Arweinydd y dymunai gydnabod a diolch i Lywodraeth Cymru am y setliad cadarnhaol. Dywedodd fod Julie James, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, yn ei llinell agoriadol yn ei chyfarfod cyntaf gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dweud ei bod eisiau "ailddechrau y berthynas rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru" a rhyngddi hi, Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, a Mark Drakeford, Prif Weinidog, Cymru, buont yn wir i'w gair ac wedi cydnabod y sefyllfa ddifrifol yr oedd llywodraeth leol ynddi. Nodwyd fod pob arweinydd yn y cyfarfod hwnnw wedi annog y Gweinidog i ystyried y ffordd y caiff llywodraeth leol ei chyllido a gobeithient y byddai newid sylweddol.

Aeth yr Arweinydd ymlaen drwy ddweud fod y setliad cadarnhaol a gwaith swyddogion yng nghyswllt adolygiadau strategol Pontio'r Bwlch wedi galluogi'r Cyngor i fod yn y sefyllfa hon heddiw – aethpwyd ati i osod cyllideb mewn ffordd wahanol oedd wedi cynnwys paratoi cyllideb ddangosol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022 a fu'n gryn gamp. Mae cynhyrchu cyllideb 2 flynedd wedi rhoi lefel o sicrwydd ar gyfer staff, preswylwyr a'r gwasanaethau a ddarperir a hefyd yn ffactor bwysig ar gyfer cynaliadwyedd a chydnerthedd ariannol tymor byr a hirdymor y Cyngor.

Ar y pwynt hwn rhoddodd yr Arweinydd flaen-hysbysiad y byddai'n cynnig cymeradwyo Opsiwn 1 gydag un gwelliant bach. Yn ychwanegol, ymhellach i sylwadau'r Prif Swyddog Adnoddau yng nghyswllt natur heb ei neilltuo grantiau, cynigiodd y dylid trosglwyddo'r rhain i'r Grant Cymorth Refeniw a chael eu

pasportio'n uniongyrchol i ysgolion h.y. y grant ar gyfer Tâl a Phensiynau Athrawon ynghyd â chyllido'r pwysau cost ar gyfer ysgolion. Byddai hyn yn arwain at gynnydd cadarnhaol o £2.2m i'r Gyllideb Ysgolion Unigol.

**Gwelliant - Paragraff 3.1.7 –** cynigodd yr Arweinydd welliant mân i baragraff 3.1.7 yr adroddiad h.y. bod Aelodau yn cytuno ar gynnydd Treth Gyngor o **3.9%** ac nid yr 4% a amlinellir yn yr adroddiad.

Wrth gynnig y lefel yma o Dreth Gyngor, byddai'n rhoi'r sicrwydd i fedru cynhyrchu cyllideb 2-flynedd eleni sydd yn rhwydd o fewn paramedrau cyllideb gyfreithiol ac a fyddai'n galluogi'r Cyngor i ymrwymo i dybiaethau 2021/2022 gyda'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol mewn sefyllfa gwarged.

**Arweinydd y Grŵp Llafur – Datganiad**

Dechreuodd Arweinydd y Grŵp Llafur drwy ddweud ei fod yn cytuno gyda'r cynnig a wnaed i basportio grantiau'n uniongyrchol i ysgolion a hefyd cymeradwyodd y sylwadau a wnaed am Lywodraeth Cymru.

Dywedodd iddo ddweud nifer o flynyddoedd yn ôl nad oedd awdurdodau Cymru wedi dioddef yr un lefel o lymder a thoriadau ag awdurdodau Lloegr a bod Prif Weinidog Cymru wedi addo edrych ar gyllido awdurdodau lleol ac mae'n obeithiol ar gyfer y dyfodol.

Aeth Arweinydd y Grŵp Llafur ymlaen drwy gyfeirio at y sylwadau diweddar a wnaed yn y wasg am natur 'gwarged' y Cydbwyllgor Craffu a gynullwyd i drafod y gyllideb refeniw ac awgrymodd gan y cynhelir cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol i dderbyn gwybodaeth ar y gyllideb, y dylid cael trafodaeth gyda Arweinydd y Cyngor am ddyfodol y cyfarfod hwn.

Nododd fod yr Arweinydd wedi cynnig cynnydd o 3.9% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2020/2021 a dywedodd fod y Cyngor wedi cwyno am y 12 mlynedd ddiwethaf ei fod wedi dioddef toriadau cyllideb ofnadwy ond dywedodd fod aelodau'r cyhoedd yn dal i ddioddef oherwydd eu bod yn wynebu cynnydd blynyddol yn y dreth gyngor. Er y cefnogir natur entrepreneuraidd awdurdodau lleol yng nghyswllt incwm a chodi tâl, yn 2014 roedd y Grŵp Llafur wedi cyflwyno cynnydd o 2.6% yn y dreth gyngor a dywedodd y dylai'r

setliad cadarnhaol hwn gael ei basio ymlaen i'r preswylwyr. Teimlai'n hyderus ar gyfer setliad y flwyddyn nesaf a chynigiodd ddau welliant yng nghyswllt Opsiwn 1:

**Cynnig Diwygiedig:**

**Paragraff 3.1.4 – Cyllideb Trawsnewid (£500,000) – gostwng i £400,000.**

**Paragraff 3.1.7 – cynyddu lefel y Dreth Gyngor i 2.9% - byddai hyn yn arwain at fwlch cyllid o £366,000.**

**Gellid cyllido'r cynnig uchod drwy:**

**£100,000 o'r Gyllideb Trawsnewid – 1%**
**£266,000 o'r gwarged rhagamcanol (£1.4m) – 0.1%**

Eiliwyd y cynnig gyda'r gwelliant.

Cydnabu Arweinydd y Cyngor y pwynt a wnaed gan Arweinydd y Grŵp Llafur a dywedodd y cynhaliwyd trafodaethau am lefel y dreth gyngor. Mynegodd ei bryder am ostyngiad yn unrhyw un o ffigurau'r gyllideb a gyflwynwyd gan fod heriau ar y gorwel ar gyfer y dyfodol, ac na wyddom eu llawn faint ar hyn o bryd h.y. effaith Brexit, y gost a'r galw am wasanaethau a ddarperir, adolygiad gwariant y Deyrnas Unedig a setliadau'r dyfodol (gobeithid y byddai'r rhain hefyd yn gadarnhaol). Yn ychwanegol mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ystyriol o effaith y cynnydd yn yr isafswm darpariaeth refeniw o 2022/2023.

Felly mae angen i'r Cyngor greu clustog i barhau i ddiogelu swyddi a gwasanaethau. Roedd cynnydd o 3.9% yn lefel y Dreth Gyngor (os caiff ei gymeradwyo) yn ostyngiad o 1% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd yn bendant y byddai Cyllideb Trawsnewid o £500,000 yn atal y gofyniad i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi (yn hanesyddol defnyddiwyd £14m o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yma) a byddai hyn yn creu llawer mwy o glustog i'r Cyngor wrth symud ymlaen i sefyllfa gwarged.

Daeth yr Arweinydd i ben drwy ddweud y byddai'n llawer mwy bodlon pe byddai'r gyllideb yn cael ei derbyn fel y'i cyflwynwyd a chynigiodd gymeradwyo'r cynigion dechreuol.

Eiliwyd y cynnig hwn.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei fod yn dal o’r farn y byddai’r ystod cyflawni ‘lefel is’ a ragwelir yng nghyswllt cynigion Pontio’r Bwlch yn cynhyrchu mwy o incwm a’i fod yn optimistig y byddai’r Cyngor y flwyddyn nesaf hefyd yn derbyn setliad cadarnhaol gan y credai fod newid yn y syniadau am y ffordd y caiff llywodraeth leol ei chyllido.

Nododd y gallai awdurdodau lleol fod yn gosod cyfraddau treth gyngor uwch a chyfeiriodd at y gwaith a wnaed rhwng 2013-2016. Credai fod pobl Blaenau Gwent yn cael eu cosbi oherwydd maint yr awdurdod lleol a dywedodd lle gellid rhoi peth cymorth i breswylwyr, y dylai’r Cyngor wneud hynny gan y gall cynnydd mewn taliadau gwasanaeth hefyd fod yn effeithio arnynt.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor gymeradwyo Opsiwn 1 gyda’r gwelliant fod lefel cynnydd y Dreth Gyngor yn 3.9%.

Eiliwyd y cynnig hwn.

Cynigiodd Arweinydd y Grŵp Llafur y gwelliant dilynol h.y. bod lefel y Dreth Gyngor yn codi gan 2.9%.

Eiliwyd y cynnig hwn.

Wedyn cynhaliwyd pleidlais yng nghyswllt y **gwelliant a gynigiwyd h.y. bod lefel y Dreth Gyngor yn cynyddu gan 2.9%.**

Ni chafodd y cynnig ei gario.

Wedyn cynhaliwyd pleidlais yng nghyswllt y **cynnig gwreiddiol i gynyddu lefel y Dreth Gyngor i 3.9%.**

**Cariwyd y cynnig hwn.**

Mynegodd Arweinydd y Cyngor ei werthfawrogiad i’r Prif Swyddog Adnoddau a’i thîm am y gwaith mawr a wnaed ac i’r Rheolwr Gyfarwyddwr, y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol ac Uwch Reolwyr a Deiliaid Cyllideb ar hyd y broses. Gofynnodd iddo gael ei gofnodi mai rhan o’r rheswm i’r Cyngor lwyddo i lunio’r gyllideb oedd y gwaith a wnaed ar raglen Pontio’r Bwlch, y byddai angen iddo barhau’n gyflym i sicrhau fod y Cyngor yn parhau mewn sefyllfa dda i ateb heriau’r dyfodol fel sefydliad.

| | | |
|---|---|---|
| | Cymeradwyodd Arweinydd y Grŵp Llafur y sylwadau uchod.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1 sef:<br><br>➢ Cytuno ar gyllideb refeniw 2020/21 a'r gyllideb ddangosol lefel uchel ar gyfer 2021/2022.<br><br>➢ Nodi'r newid pellach posibl yn Setliad Terfynol y Grant Cymorth Refeniw.<br><br>➢ Nodi'r deilliannau o fewn setliad darpariaethol Grant Cymorth Refeniw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'i effaith ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol.<br><br>➢ Cytuno ar y pwysau cost a'r eitemau twf a ddiweddarwyd (cyfanswm o £2m) a ddynodwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad i'w gynnwys yng nghyllideb y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys sefydlu cyllideb drosfwaol Trawsnewid o £500,000 i'w defnyddio i weithredu/cyflenwi cyfleoedd ar gyfer Blaenau Gwent.<br><br>➢ Bod y grantiau yn cael eu trosglwyddo i'r setliad a chymeradwyo "pasportio" gwariant o'r grantiau penodol/cyllid ychwanegol blaenorol hyn i gyllideb y Cyngor.<br><br>➢ Trosglwyddo unrhyw gyflawniad yng nghynigion Pontio'r Bwlch sy'n fwy na'r gofyniad cyllideb yn y flwyddyn i gronfa wrth gefn a glustnodwyd i gefnogi cynllunio ariannol tymor canol, yn benodol ar gyfer blynyddoedd diweddarach y Strategaeth Ariannol Tymor Canol.<br><br>➢ Cymeradwyo cynnydd Treth Gyngor o 3.9% ar gyfer 2020/2021. | |
| **No. 21** | <u>**ADRODDIAD AELODAETH**</u><br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i:<br><br><u>**Cyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan**</u><br>I benodi cynrychiolydd i gymryd lle y Cynghorydd Julie Holt. | |

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd gan y Grŵp Annibynnol unrhyw enwebiadau cyfredol i’w cyflwyno ar gyfer y swydd wag hon a chynigiodd i’r Grŵp Llafur roi enwebiad.

**<u>Panel Cynghori Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol</u>**

Gwnaed yr argymhellion dilynol gan y Panel ar 17 Rhagfyr i benodi:

Cynghorydd D. Davies – ***Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr***
Cynghorydd P. Edwards – ***Ysgol Gynradd Rhos-y-Fedwen***
Cynghorydd H. Trollope – ***Ysgol Gyfun Tredegar***
Ms. Sian Barrett – ***Ysgol Gynradd Trehelyg***

Gwnaed yr argymhellion dilynol gan y Panel ar 31 Ionawr 2020 i benodi:

Cynghorydd D. Bevan – ***Ysgol Gynradd Cwm***

Mewn pleidlais unfrydol,

PENDERFYNWYD i gymeradwyo’r apwyntiadau uchod.

Oherwydd natur y busnes a drafodir yn y cyfarfodydd hyn, dywedodd Aelod y gwnaed ceisiadau i glerc fod ar gael mewn Paneli yn y dyfodol i gadw cofnodion o’r trafodion.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y cynhaliwyd trafodaethau gyda’r Aelod Gweithredol – Addysg ar y mater hwn ac y byddai’n cydlynu am y cais gyda’r Tîm Gwasanaethau Democrataidd.